



---

Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU  
Epost Email [helo@s4c.co.uk](mailto:helo@s4c.co.uk) / Gwefan Website [s4c.co.uk](http://s4c.co.uk)  
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

---

## **Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2009**

---

1. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu, ar deledu analog - Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol, gyda'r nifer helaeth o raglenni yn yr iaith Gymraeg. Yn ystod yr oriau brig (rhwng 18.30 a 22.00) rhaid i'r mwyafrif o'r rhaglenni fod yn Gymraeg. Rhaid i'r rhaglenni yn yr iaith Saesneg fel arfer fod yn rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar Channel 4.
2. Mae gennym ddyletswydd i ddarparu ar deledu digidol – Ystod eang o raglenni o safon uchel ac amrywiol yn bennaf yn y Gymraeg.
3. Yn 2009 bydd ein dyletswydd statudol i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei weithredu yn unol â Strategaeth Cynnwys S4C, gyhoeddwyd fis Hydref 2009, sy'n adeiladu ar y Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004.
4. Mae'r Strategaeth Cynnwys wedi ei llunio'n benodol ar gyfer y cyfnod sy'n pontio dechrau a diwedd y broses o drosglwyddo i ddigidol. Erbyn diwedd y cyfnod pwysig hwn bydd cynulleidfa S4C yn wylwyr digidol a Sianel Gymraeg ar ei phen ei hun fydd S4C. Ein gobaith yw cynnal eu teyrngarwch trwy gydol y cyfnod cymhleth hwn o newid. Nid ydym yn tanbriso'r sialens sydd yn wynebu'r Sianel a'i phartneriaid wrth fynd ati i geisio cyflawni'r gwaith hwn. Rydym hefyd yn cydnabod yr her ychwanegol sy'n ein hwynebu ni a'n cyflenwyr o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd anwadal bresennol.
5. Mae'r Strategaeth yn pwysleisio mai nod sylfaenol S4C yn yr oes ddigidol yw sicrhau fod y Sianel yn cynnig gwasanaeth amrywiol o safon uchel. Mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn ddyfeisgar, gwreiddiol ac atyniadol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r bartneriaeth gyda'r sector annibynnol a'r Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC. Bydd ein cynlluniau cyfathrebu yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Cynnwys.
6. Rydym yn ymrwmo i ddarlledu o leiaf 35 awr o raglenni Cymraeg bob wythnos yn gydamserol ar wasanaethau teledu S4C ac S4C Digidol.
7. Byddwn yn neilltuo o leiaf £78 miliwn ar gyfer cynnwys ein gwasanaethau. Mae'r cynnydd yn adlewyrchiad o arwyddocâd a phwysigrwydd 2009 i S4C wrth i'r broses o drosglwyddo fynd rhagddi.
8. Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol i sicrhau bod dim llai na 25% o'r holl oriau darlledu gwreiddiol yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol, rydym yn ymrwmo i barhau i sicrhau y bydd o leiaf 95% o'r oriau a gomisiynir yn uniongyrchol gan S4C yn 2009 yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau annibynnol.
9. Byddwn yn parhau i ddefnyddio proses gomisiynu ddi-dor er mwyn annog creadigrwydd trwy gydol y flwyddyn ac yn parhau â'n polisi tendro agored fel dull o sicrhau gweithredu cystadleuol. Byddwn yn gosod nod benodol ar gyfer ein rhaglenni. Byddwn yn ystyried gallu'r rhaglen i ddenu cynulleidfa sylweddol neu briodol, ehangu cyrhaeddiad neu gyflawni un o briod nodweddion darlledwr cyhoeddus all weithiau ddenu nifer llai o wylwyr.
10. Os byddwn yn adnabod angen penodol ar gyfer yr amserlen byddwn yn gweithredu proses dendr er mwyn diwallu'r angen hwn.
11. Rydym yn ymrwmo i sicrhau bod ein perthynas â'n cynhyrchwyr yn agored ac effeithiol. Mae perthynas S4C gyda'r sector gynhyrchu annibynnol wedi ei diffinio yng nghydstun y Cod Ymarfer, y Telerau Masnach ar sail egwyddorion masnachu teg, y Cynllun Corfforaethol a bwriadau'r Strategaeth Cynnwys.
12. Bydd Gwifren Gwylwyr S4C ar gael trwy gydol y flwyddyn o leiaf o 09.00 tan 22.00 i dderbyn sylwadau ac ymholiadau gan ein gwylwyr ar 0870 6004141 neu [gwifren@s4c.co.uk](mailto:gwifren@s4c.co.uk) neu minicom 029 2074 1212.

### **Trosoglwyddo i Ddigidol**

13. Blaenoriaeth 2009 fydd cynnal cynulleidfa S4C wrth i'r newid i ddigidol ddigwydd. Mae'r Strategaeth Rhagoriaeth Greadigol 2004 wedi paratoi'r Sianel a gosod y sylfaen ar gyfer y cyfnod allweddol hwn.
14. Mae'r newid i ddigidol yn dechrau yn 2009 a bydd wedi ei gwblhau yn gynnar yn 2010. Bydd y broses yn cychwyn yn Abertawe a'r Gorllewin ym mis Awst. Fe fydd Sir Fôn a'r Gogledd yn trosglwyddo o'r Hydref ymlaen. Wrth i deledu analog gael ei ddiffodd mewn un ardal ar ôl y llall byddwn yn rhoi sylw arbennig yn yr amserlen i'r ardaloedd yn eu tro wrth iddyn nhw droi i'r byd digidol yn unig. Y bwriad yw eu cynorthwyo i addasu a'u cyflwyno i arlwy gyfan S4C Digidol.
15. Byddwn yn comisiynu rhaglenni penodol i gadw ac arwain pobl i'r Sianel wrth i'r diffodd teledu analog fynd rhagddo. Mae'r dewis o'r rhaglenni hyn wedi ei lywio gan ddyheadau ein cynulleidfa yn dilyn ein gwaith ymchwil cyson a chynhwysfawr. Mae'n gwylwyr yn ystyried mai S4C yw cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig. Fe fyddwn yn parhau i flaenoriaethu ein darpariaeth o'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Y Sioe Frenhinol, Chwaraeon, Gwyliau a Pherfformiadau Cerddorol amrywiol. Ond byddwn hefyd yn cynyddu nifer ac ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau Cymreig sy'n cael eu hadlewyrchu ar y Sianel, gan sicrhau gofod teilwng ac addas iddyn nhw ar S4C. Wrth i fwy o bobl fanteisio ar ddulliau technolegol i wyllo rhaglenni ar adegau o'u dewis hwy mae darllediadau o ddigwyddiadau fel hyn yn creu uchafbwyntiau cyd-wyllo pwysig. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd i wyllo a mwynhau ar wahanol lwyfannau o'r digwyddiadau gan annog dyfeisgarwch pellach er mwyn rhoi boddhad a dewis i'r gwylwyr.
16. Mae'r gwylwyr hefyd wedi nodi gwerth S4C yn cynrychioli Bywyd Modern a Gwledig Cymru yn enwedig y tirlun a'i hanes. Fe fydd rhagor o raglenni yn 2009 yn adlewyrchu'r galw hwn. Bydd rhagor o raglenni gwreiddiol yn cael eu comisiynu ar gyfer yr oriau brig, gan arwain at ostwng nifer yr ailddarllediadau yn yr oriau pwysig hyn.
17. Fe fydd ymgyrch gyfathrebu a marchnata gref ac effeithiol yn cefnogi'r gwaith o drosglwyddo i ddigidol.

### **Dyfeisgarwch a Hygyrchedd**

18. Teledu bydd prif ganolbwynt ein gweithgareddau am beth amser - ond fe fydd rôl gynyddol i'r llwyfannau eraill yn y gwaith o ymestyn effaith a chyrhaeddiad ein cynnwys i'r eithaf.
19. Bydd mwyafrif y rhaglenni a ddarlledir ar S4C ar gael drwy fand llydan yn gydamserol gyda'r darllediad teledu, ac ar alw yn dilyn y darllediad teledu ar S4/Clic. Mae gwasanaeth gwyllo ar lein **Clic** yn galluogi gwylwyr i fwynhau mwyafrif rhaglenni S4C ar-lein am 35 diwrnod ar ôl y darllediad teledu cyntaf. Mae isdeitlau Saesneg a Chymraeg fel arfer ar gael drwy bwyso eicon y dylluan, a bydd testun yn nodi pan fydd modd gwyllo rhaglen ar-lein yn fyd eang.
20. Bydd amrywiaeth o wefannau dwyieithog i gyd-fynd â chynnwys ein rhaglenni. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r rhaglenni, yr amserlenni a'r holl wasanaethau atodol. Byddwn yn parhau i roi pwyslais ar ddatblygu defnyddioldeb y safleoedd i bobl anabl yn gyson â'r ymarfer gorau.

21. Mae dysgwyr yn rhan bwysig tu hwnt o'r gynulleidfa. Byddwn yn ail-lansio ein gwasanaeth i ddysgwyr er mwyn cynyddu gwerth ac apêl S4C ar eu cyfer. Byddwn yn datblygu ein gwasanaeth ar-lein ar eu cyfer gan sicrhau ei fod yn tyfu i'w lawn potensial. Mae'r wefan yn defnyddio technoleg i gynorthwyo ac annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau trwy ddarparu cyd-destun a gwybodaeth estynedig am raglenni S4C. Trwy ymgyrchoedd marchnata byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r adnodd pwysig hwn ymysg y rhai sy'n dysgu Cymraeg a'r Di-Gymraeg.
22. Mae'n gwasanaethau mynediad ynghyd â datblygiadau technolegol yn ein galluogi i fod yn fwy hygyrch nac erioed gan roi cyfle i ragor o bobl wyllo rhaglenni S4C. Trwy gyfrwng y botwm coch byddwn yn darparu trac sain Saesneg ar rannau penodol o'r ddarpariaeth.
23. Fel rhan o ymrwymiad S4C i hyrwyddo mynediad i'r Sianel i wylwyr yng Nghymru a thrwy'r Deyrnas Unedig fe fyddwn yn gweithredu'r targed o isdeitlo 100% o raglenni Cymraeg erbyn diwedd 2009. Mae'r targed hwn am isdeitlau Saesneg y tu hwnt i ofynion Ofcom i S4C, ond bydd yn ddibynnol ar hawliau.

### **Y Gwasanaeth Rhaglenni a Chynnwys S4C**

24. Darlledwr cyhoeddus yw S4C, ac mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ateb y gofynion sy'n angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno. Fe fyddwn yn ymgeisio i ddarparu'r amrywiaeth briodol o raglenni a chynnwys ar gyfer darlledwr cyhoeddus gan gynnig y gwerth a'r mwynhad gorau i'r gynulleidfa Gymraeg. Mae cynnal a datblygu ein gwasanaethau yn gofyn am raglenni sy'n ddyfeisgar, gwreiddiol ac unigryw.
25. Fe fyddwn yn rhoi rhagor o bwyslais ar adnabod pwrpasau a nodweddion comisiynau unigol. Wrth wneud hyn byddwn yn ystyried targedau cynulleidfa o ran niferoedd, demograffeg cynulleidfa neu ddiben darlledu cyhoeddus penodol.
26. Wrth i'r gwasanaeth analog ddiffodd ym mhob ardal o Gymru yn ei dro ac i S4C Digidol fod yn sianel Gymraeg heb yr angen i ddangos rhaglenni Saesneg bydd yr amserlen ddyddiol yn canolbwyntio ar bedwar rhan o'r diwrnod - bore, prynhawn, oriau brig a hwyr. Bydd patrwm cyson gan amlaf ar gyfer dyddiau'r wythnos, gyda'r oriau brig yn brif flaenoriaeth. Bydd gwasanaeth Newyddion a Thywydd rheolaidd.

### **Digwyddiadau a Theledu Achlysur**

27. S4C yw cartref digwyddiadau o ddiddordeb Cymreig. Fe fydd gwasanaethau cynhwysfawr ac estynedig yn cael eu cynnig o Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau, Eisteddfod yr Urdd Bae Caerdydd ac Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Bydd cryn sylw i'r Sioe Frenhinol a'r Ffair Aeaf, yn ogystal â'r Wyl Gerdd Dant, Gŵyl y Faenol a Gwyliau Cerddorol Eraill. Byddwn hefyd yn darparu rhaglenni newydd sbon o Wyliau a Digwyddiadau eraill ar y Sianel. Byddwn yn dathlu cystadleuaeth **Cân i Gymru** sydd i'w chynnal yn Llandudno eleni. Byddwn yn datblygu syniadau i greu achlysuron aml-lwyfan o ddigwyddiad neu raglen. Bydd y ddarpariaeth hon yn creu profiadau gwyllo rhyngweithiol, cymunedol, hwyliog a dyrchafol.

### **Newyddion a Materion Cyfoes**

28. Fel darlledwr cyhoeddus byddwn yn addysgu a rhoi gwybodaeth i'r gynulleidfa gan gynyddu eu dealltwriaeth o Gymru a'r byd trwy newyddion, gwybodaeth a thrwy ddadansoddi digwyddiadau a syniadau cyfoes. Bydd S4C yn gweithio i ddiwallu anghenion y gynulleidfa gyfan trwy gynnig rhaglenni newyddion a materion cyfoes o fewn arlwy'r sianel gydag amlygrwydd yn yr oriau brig.

29. Yn unol â'r Cynllun Rhaglenni sydd wedi ei gytuno gyda'r BBC o dan y Bartneriaeth Strategol bydd y brif raglen nos weithiol **Newyddion** yn parhau i gael ei darlledu yn ystod yr oriau brig gyda bwletinâu hirach ar y penwythnosau gan gwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer newyddion (200 awr dros yr oriau Cymraeg gyda 150 awr yn ystod yr oriau brig). Fe fyddwn yn parhau i drafod y ddarpariaeth o'r sesiynau yn y Cynulliad ar S4C2 gyda'n partneriaid.
30. Rydym yn ymrwmo i ddarlledu 30 awr o raglenni materion cyfoes yn yr oriau brig (60 awr dros yr holl oriau). Er mwyn hybu plwraliaeth a chael safbwyntiau golygyddol gwahanol o fewn yr amserlen byddwn yn parhau i dderbyn ein rhaglenni materion cyfoes a ffeithiol newyddiadurol gan fwy nag un cyflenwr. Bydd pwyslais y rhaglenni hyn hefyd ar newyddiaduraeth drwyadl, torri straeon a rhoi gwybodaeth a chyd-destun mewn modd difyr i'r gynulleidfa Gymreig. Yn 2009 bydd ITV Cymru yn cynhyrchu'r **Byd ar Bedwar** a **Hacio**. Fe fydd y gyfres newyddiadurol **Hacio** i bobl ifanc yn cael ei datblygu i fod yn gyfres o raglenni hanner awr. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu'r gwasanaethau newydd cynhwysfawr Cymreig di-dor ar-lein ITV Lleol/S4C gydag ITV Cymru [www.itvlocal.com/cymru](http://www.itvlocal.com/cymru) fydd yn ateb galwadau cynulleidfaoedd llai traddodiadol ac ieuengach. Bydd y BBC yn darparu cyfresi **Taro 9, Pawb a'i Farn** ac **CF99**.

### **Ffeithiol, Diwylliant a Cherddoriaeth**

31. Fel rhan o'n dyletswyddau darlledu cyhoeddus byddwn yn adlewyrchu a chryfhau hunaniaeth ddiwylliannol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a safbwyntiau gwahanol. Byddwn yn bwrw ati i gynnig gwybodaeth ac ysgogi diddordeb mewn hanes, diwylliant, cerddoriaeth, y celfyddydau a phynciau eraill.
32. Byddwn yn edrych ar hanes diweddar Cymru trwy lygaid y sylwedydd gwleidyddol a'r colofnydd Hywel Williams, ac yn rhoi cyfle i'r gwylwyr ymateb i'w syniadau a'i ddamcaniaethau. Fe fyddwn yn edrych ar gefndir hanesyddol cymdeithasol Cymru, trwy ddefnyddio hen ffilmiau i fwrw golwg newydd ar y cymunedau lle'u ffilmwyd nhw'n wreiddiol. Byddwn yn nodi llong ddrylliad y **Royal Charter**, gant a hanner o flynyddoedd union ers y trychineb oddi ar arfordir Môn, yn bwrw golwg gyda Ffion Hague ar **Ferched Lloyd George**, ac mewn cyd-gynhyrchiadau yn edrych ar hanes **Y Rhufeiniaid** ac ar hanes diddorol a gwaedlyd **Y Cleddyf**.
33. Mae cyd-gynhyrchiadau rhyngwladol uchelgeisiol lle mae'r mewnbyn Cymreig yn amlwg yn fodd i ni gryfhau ein harlwy ffeithiol. Byddwn yn gwneud hyn wrth i Iolo Williams fentro i Rwsia yn **Iolo yn Rwsia** i gymryd ei olwg unigryw ei hun ar fywyd gwylt y wlad anferth hon. Ac yn **Angell yn India** bydd Beth Angell yn rhoi cyd-destun cyfoes i gymhlethdodau lliwgar y wlad honno.
34. Mae S4C wedi llwyddo i safleoli ei hun fel prif ddarparwr rhaglenni gwledig, a bydd cynnwys yn y maes hwn yn amlwg yn yr amserlen. Bydd cyfresi newydd o **Cefn Gwlad** a **Ffermio**.
35. Bydd y gyfres ddyddiol boblogaidd **Wedi 7** yn parhau i gael ei gweld o ddydd Llun i ddydd Gwener, a'i chwaer raglen **Wedi 3** yn diddanu gwylwyr y prynhawn. Bydd cyfresi cyfansawdd **O'r Galon** ac **Wynebau Newydd** yn cynnig amrywiaeth o raglenni ar bynciau gwahanol. Bydd cyfle i ddod i adnabod rhai o wynebau amlwg Cymru'n well, yn eu plith y gwleidydd **Ann Clwyd**, a'r Archdderwydd **Dic Jones**. Yn rhaglen **Trip yr Ysgol Gymraeg** byddwn yn edrych ar dwf Addysg Gymraeg.
36. Byddwn yn parhau i sicrhau amrywiaeth o raglenni yn cynnwys canu cynulleidfaol a pherfformiadau o safon uchel yn **Dechrau Canu Dechrau Canmol**. Yn unol â'r pwyslais ar raglenni'r celfyddydau o fewn yr amserlen fe fydd y **Sioe Gelf** a rhaglenni arbennig dan faner y gyfres yn cael eu darlledu yn yr oriau brig.

37. Byddwn hefyd yn parhau i nodi pwysigrwydd cerddoriaeth yn yr amserlen. Byddwn yn darlledu cyngherddau mawreddog a bydd ein hymrwymiad i gwmi Opera Cenedlaethol Cymru yn cael ei arddangos ar y sgrin yn **Otello**. Mae nifer o gantorion Cymreig yn perfformio'r prif rannau yng nghampwaith Verdi gan gynnwys Dennis O'Neill. Carlo Rizzi sy'n arwain. Bydd rhaglen ddogfen **Otello - Tu ôl i'r Lenni** hefyd yn olrhain hanes yr opera, y cynhyrchiad a'r ymarferion. Bydd cyfres newydd o'r gystadleuaeth **Côr Cymru**. Mae'r gystadleuaeth i'w chynnal yn Aberystwyth gyda phanel o feirniaid corawl rhyngwladol. Mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Côr Glanaethwy, Ysgol Gerdd Ceredigion a Serendipity sy'n cael ei arwain gan Tim Rhys-Evans. Ac yn dilyn llwyddiant Tim mewn cystadleuaeth gorawl arall Last Choir Standing, fe fyddwn yn dilyn blwyddyn ym mywyd **Tim Rhys-Evans**. Bydd cyfres o berfformiadau gan Llŷr Williams o Efrog Newydd yn **Llŷr yn Carnegie**. Bydd y soprano, yr actores a'r gyflwynwraig **Shan Cothi** yn cael cyfres ei hun pan fydd hi'n croesawu'r gorau o'r byd cerddorol yng Nghymru a thu hwnt i ymuno â hi.
38. Bydd cyfres canu boblogaidd **Nodyn** gydag Elin Fflur yn dychwelyd, bydd newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r gyfres gerddoriaeth gyfoes **Bandit**. Byddwn hefyd yn rhoi sylw i **Wakestock** a gwyliau cerddorol eraill yng Nghymru.

### Chwaraeon

39. Rygbi a phêl-droed yw ein prif chwaraeon. Byddwn yn defnyddio ac yn sicrhau hawliau i ddarlledu gemau'n fyw ac egswliwsif er mwyn rhoi cyfleoedd i'r Sianel ddenu cynulleidfaoedd sylweddol yn ogystal â gwylwyr newydd a llai cyfarwydd â'n rhaglenni. Bydd **Y Clwb Rygbi'n** parhau i roi sylw i Gemau Rhyngwladol Cymru, Cystadleuaeth Magners, Cynghrair y Principality a Chwpan Swalec. Byddwn yn dangos uchafbwyntiau **Cwpan Heineken** a lle mae hawliau'n caniatáu yn darparu sylwebaeth Saesneg trwy gyfrwng y botwm coch. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein rhaglenni pêl-droed dan frand **Sgorio** ar y meysydd Cymreig, Ewropeaidd a Rhyngwladol.
40. Wrth i gystadleuaeth Cwpan Ryder yng Nghymru nesáu fe fyddwn yn cynyddu'r sylw i golff trwy ein cyfres **Golffio**. Byddwn yn datblygu a newid ein darpariaeth o rasio trwy gynnwys rhagor o gystadlaethau rasio lleol i Gymru, bydd rhagor o sylw i straeon lleol yn ymwneud â throtian a chymeriadau'r gamp yn cael eu cynnwys yng nghyfres **Rasus**.
41. Fe fydd **Râs yr Wyddfa** a **Marathon Eryri** yn cyfrannu at ein Strategaeth o roi sylw i ddigwyddiadau o bwys yng Nghymru. Wrth i'r paratodau ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012 fynd rhagddynt byddwn yn dechrau ar y **Daith Olympaidd** ar S4C trwy ddilyn rhai o sêr gobeithiol y dyfodol. Ac wedi iddo ef gael blwyddyn lwyddiannus iawn y llynedd fe fyddwn yn rhoi sylw arbennig i asgellwr tîm rygbi Cymru **Shane Williams** mewn rhaglen ddogfen. Bydd cyfres newydd hefyd o **Chwa!** sy'n dilyn chwaraeon eithafol o bob math.

### Ffuglen, Adloniant ac Adloniant Ffeithiol

42. Ym mis Ionawr fe fydd ail gyfres o'r ddrama boblogaidd **Teulu** yn cyrraedd y sgrin. Bydd cyfresi newydd hefyd o **Caerdydd** ac **Y Pris**. Yn dilyn gwaith ymchwil ac ymateb y gynulleidfa i gyfres gyntaf **2 Dŷ a Ni** fe fydd newidiadau yn cael eu cyflwyno i'r ail gyfres ac fe fydd yn cael ei hamserlennu'n wahanol. Yn ystod yr Hydref fe fydd cyfres newydd sbon **Blodau**. Mae'r ddrama wedi ei lleoli mewn tref yn y Gogledd ac yn canolbwyntio ar straeon personol cwsmeriaid siop flodau. Yn aros yn gonglfeini i'r amserlen ddrama fydd **Pobol y Cwm** a **Rownd a Rownd**. Byddwn yn parhau hefyd ag ail ran ein cyfres o ddrâmâu amrywiol unigol. Un o uchafbwyntiau Nadolig 2009 fydd ffilm **Ryan a Ronnie**.

43. Ar ôl llwyddiant ei gyfres **PC Leslie Wynne**, fe fydd y comedïwr amryddawn Tudur Owen yn cael cyfres newydd sbon **Tudur Owen o'r Doc**. Fe fydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno o Galeri yng Nghaernarfon ac yn cynnwys gwestai arbennig o faes adloniant yn ogystal â digon o hwyl gyda'r gynulleidfa. Bydd cyfres arall o'r ddrama gomedi dychanol gyda chriw tafarn y Bwl **Ista'nbwll**.
44. Bydd cwis newydd sbon dan arweiniad Gethin Jones yn cyfuno cwestiynau cyflym ar wybodaeth gyffredinol gyda rheolau gem rygbi. Timau rygbi o bob rhan o'r wlad fydd yn cystadlu yn **Cwis Meddiant**. Bydd criw hwyliog a heriol **Bwrw'r Bar** hefyd yn cynnig digon o adloniant yn ystod cyfnod gemau rygbi rhyngwladol ac yng nghwis **o ond 1** fe fydd cyfle arall i ennill gwyliau diddorol. Byddwn yn cynnig amrywiaethau ar y noson lawen draddodiadol.
45. Yn dilyn llwyddiant Y Tŷ Cymreig y llynedd pan fu Aled Samuel a'r Dr Greg Stevenson yn ymweld â thai hynod yn yr hen dair sir ar ddeg, fe fydd y ddeuawd a'u cymar Minti yn teithio i dair tref ar ddeg yn yr hen siroedd eleni yn **Y Dref Gymreig**. Mewn cyfres ychydig yn wahanol o **o4 Wal** fe fydd Aled Samuel yn teithio i edrych ar bensaenïaeth rhai o westyau nodedig Cymru a'r byd. Bydd cyfle i gyw-gogyddion gystadlu eto eleni yn y fersiwn ddiweddaraf o **Casa Dudley**.
46. Fe fyddwn yn ymestyn hyd cyfres **Byw yn yr Ardd** oherwydd ei phoblogrwydd ac apêl eang. Bydd cyfle hefyd i ail-greu ffotograffau o'r gorffennol mewn cyfres newydd o **Lle'r Aeth Pawb**.

## Plant

47. Cafodd **Cyw**, ein gwasanaeth newydd ar gyfer plant meithrin, ei lansio'n llwyddiannus ym Mehefin y llynedd. Byddwn yn parhau i gryfhau a datblygu'r rhaglenni i gynnal y ddarpariaeth arbennig hon. Yn dilyn llwyddiant digamsyniol **Pentref Bach**, byddwn yn cyflwyno cyfres ddrama newydd **Cei Bach**. Fe fydd y ddrama hon yn cynnig golwg gyffrous ar fywyd mewn pentref bach glan-y-môr yn y Gogledd gan gyflwyno'r plant i lu o gymeriadau newydd. Yn ogystal ag ail gyfres o **ABC** sy'n darlunio'r wyddor mewn ffordd ddifyr a hwyliog, bydd cyfres newydd **123** yn cyflwyno rhifau i blant bach ar ffurf llun, stori a chân. Bydd cyfresi newydd o'r ffefrynnau byd-eang **Mees** a **Sam Tân** yn ogystal â chyd-gynhyrchiad newydd sbon gyda Five a GMS o'r Alban **Igam Ogam** sy'n dilyn anturiaethau merch fach o'r un enw sy'n byw mewn ogof wrth iddi ddarganfod y byd o'i chwmpas. Bydd cyfle hefyd i weld mwy o **Heini**, **Igi Tigi Bip a Bop**, **Yn yr Ardd** a **Gorsaf Hud**. Cyfres gomedi newydd yw **Twm Tisian**. Mae'r rhaglenni yn dangos cymeriad yn ceisio, methu ac yna llwyddo i wneud pob math o weithgareddau syml y mae'n rhaid i blentyn ifanc eu dysgu.
48. Yn unol â'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd a'r hyn a nodir yn Ymgynghoriad Awdurdod S4C - Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol - byddwn yn datblygu ein gwasanaeth i blant hŷn yn 2009. Byddwn yn sicrhau cynnwys cyffrous, gwreiddiol ac amrywiol ar eu cyfer. Bydd dau gyflwynydd newydd Tudur Phillips a Lois Cernyw yn ymuno â thîm cyflwyno Planed Plant. Rhaglen newydd egniol yw **Gobyldigwyrdd** sy'n parhau â nodau Blwyddyn Werdd S4C y llynedd. Pob wythnos fe fydd criw o blant yn trawsnewid llecyn llygredig yn hafan i fyd natur. Yng nghyfres gomedi newydd **Jac Russell** fe fydd ci sinigaidd yn ymuno â theulu am ddiwrnod gan esgor ar chwerthin, hwyl a jôcs. Bydd cyfresi newydd o **Stwffio**, **Y Garej**, **Atom**, **Y Fet a Fi**, **Ffit 100%** a **Dawnstastig** yn cael eu darlledu. Fe fydd digon o hwyl hefyd yn **Trwr'n y Tŷ**, wrth i'r rhaglen **Popty** adael y stiwdio a theithio i gartrefi'r gwylwyr.
49. Bydd bwrlwm a hwyl cyflwynwyr a thîm **Uned 5** yn parhau'n rhan amlwg o'r arlwy ar gyfer y plant hŷn ddwywaith yr wythnos. Bydd y BBC yn parhau i ddarparu rhaglen newyddion ddyddiol **Ffeil** yn ogystal â'r rhaglen gylchgrawn **Mosgito**. Bydd cystadlu brwd hefyd yn y cwis chwaraeon **Pencampau**.

## Gwybodaeth Ychwanegol

50. Byddwn yn gweithredu yn unol â'n nod o sicrhau fod ein rhaglenni wedi eu cynhyrchu mewn manylder uwch erbyn 2012.
51. Byddwn yn cychwyn ar y broses o adolygu ein Canllawiau Iaith er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon blaengar ac addas i ymdrin â'r newidiadau ieithyddol a chymdeithasol yng Nghymru.
52. Byddwn yn darlledu o leiaf 90% o raglenni gwreiddiol yn ystod yr oriau brig ac 80% dros yr holl oriau Cymraeg ar S4C.
53. Byddwn yn edrych i daro'r cydbwysedd rhwng sicrhau effaith a chyrrhaeddiad rhaglenni unigol trwy eu hail-ddarlledu, ond byddwn yn ceisio sicrhau nad yw hyn ar draul mwynhad y gynulleidfa sy'n gwyllo'n gyson. Mewn wythnos arferol bydd llai na 15% o'r rhaglenni yn yr oriau brig yn ailddarllediadau.
54. Cynlluniwyd ein gwasanaeth isdeitlo Cymraeg i fod yn ddefnyddiol, hwylus ac yn addas ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw Cymraeg eu hiaith, dysgwyr Cymraeg, a'r rhai sy'n llai hyderus yn eu Cymraeg. Lle mae hawliau'n caniatáu fe fyddwn yn cynnig is-deitlau Saesneg ar ein holl raglenni. Byddwn yn cwrdd â thargedau Ofcom ar gyfer isdeitlau ar S4C ac S4C2.
55. Byddwn yn parhau i ddarlledu nifer o ailddarllediadau ein rhaglenni mwyaf poblogaidd gydag isdeitlau agored (gan gynnwys ailddarllediadau **Pobol y Cwm**). Trefnir bod isdeitlau ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw a ddarperir gan Channel 4 ar gael pan ddarlledir neu ail-ddarlledir y rhaglenni yma ar S4C.
56. Ar rai rhaglenni ar S4C Digidol bydd gwasanaeth llun-ddisgrifio yn rhoi disgrifiadau ychwanegol yn y Gymraeg, gan gynnwys sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau heb ddeialog, i alluogi gwylwyr sydd â phroblemau gweld i fwynhau'r rhaglen yn annibynnol. Bydd y sylwebaeth yn cynnwys disgrifiadau o ddilyniant mewn plot, mynegiant gweledol, iaith y corff, gwisg a golygfeydd (yn unol â thargedau Ofcom).
57. Byddwn yn darparu arwyddo ar rai rhaglenni ar S4C Digidol ar ochr y sgrin er mwyn dehongli'r rhaglen mewn iaith BSL. Paratoir y gwasanaeth ar gyfer gwylwyr byddar, ac fe fydd y cyflwynydd yn cyfleu'r rhaglen mewn steil sy'n addas ar gyfer cynulleidfa sydd ar y cyfan yn byw yng Nghymru, neu sy'n medru derbyn S4C ar lwyfan Sky yn y Deyrnas Unedig.
58. Byddwn yn parhau â'n polisi o gyfleodd cyfartal ac yn sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig a'r anabl yn cael eu hadlewyrchu ar y sgrin.
59. Rydym yn trafod gyda grwpiau perthnasol i sicrhau defnyddioldeb ac addasrwydd ein holl wasanaethau mynediad.
60. Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil ansoddol a meintiol i asesu barn ac yn ystyried y canlyniadau a goblygiadau wrth gynllunio ein gwasanaethau ac yn yr adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Cynnwys.
61. Byddwn yn darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau ac yn derbyn sylwadau neu gwynion gan ein gwylwyr ar ein Gwefan Gwylwyr ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Byddwn yn cyfleu gwasanaeth Sbectel.
62. Byddwn yn cynhyrchu cylchgrawn chwarterol Sgrîn sy'n darparu gwybodaeth am ein rhaglenni.

63. Byddwn yn sicrhau bod S4C yn cael ei darlledu ar analog yng Nghymru yn unol â'r rhaglen trosglwyddo i ddigidol, ac y bydd S4C digidol ar gael ar gebl, DTT a lloeren ac ar loeren yn y Deyrnas Unedig.
64. Unwaith eto bydd Apêl S4C yn cydfynd â'r Strategaeth Cynnwys. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar ymgyrchoedd yn ymwneud â phlant. Byddwn yn creu partneriaethau fydd yn cynorthwyo plant ar draws Cymru, ac yn cynnig cefnogaeth drwy'n rhaglenni a'n personoliaethau ar y sgrin.

### **Hyfforddiant**

65. Bydd S4C yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau trefniadau addas a chyfrannu at godi lefel sgiliau yn fewnol ac yn y sector gynhyrchu. Byddwn yn cyfrannu at waith y fframwaith a Skillset. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant i'r diwydiant yng Nghymru.
66. Bydd S4C yn parhau i gynnig cymorth ar ffurf bwrsari neu ysgoloriaethau yn gyson â'n blaenoriaethau strategol. Yn ystod 2009 byddwn yn cynnig ysgoloriaeth a dosbarth meistr i ddau golffiwr ifanc ac yn partneru gyda Chymdeithas Athletwyr Cymru i ddatblygu athletwyr ifanc ac yn cynnig ysgoloriaeth i ddau fyfyrwr yng Ngholeg Newyddiadurol Caerdydd. Byddwn hefyd yn cynnal partneriaeth datblygu ag adborth gyda grŵp o fyfyrwyr Cymraeg sy'n mynychu'r cwrs hwn. Byddwn yn cynnig ysgoloriaeth i fyfyrwr yn yr Ysgol Genedlaethol Ffilm a Theledu (NFTS) ac yn cyfrannu at ysgoloriaeth Syr Geraint Evans.